# Newyddion Datgeliad y DBS Awst

## Rhestr o erthyglau


- Cyflwyniad Ian
- Ymarfer ailgyflenwi ffurflen newydd ar waith
- Gwirfoddolwyr: pwy sy'n gymwys?
- Canllaw wedi ei ddiweddaru – cymhwyster a gweithlu
- Mae'ch barnau yn gwneud gwahaniaeth
- Cymhwyster – fe ddywedoch chi, fe wnaethom ni
- Gwasanaethau Cysgodol – gwiriwch eich manylion
- Cadwch eich manylion cofrestru'n gyfredol


## Cyflwyniad Ian

Helo, a chroeso i Newyddion Datgeliad y DBS ar gyfer Awst.

Diolch i chi am yr adborth yr ydych wedi bod yn ei roi i ni ynglŷn â'r cylchlythyr hwn. Mae'ch barnau yn wir helpu ei wneud yn well. Rydym yn falch eich bod eisiau rhannu'ch barn ac fe ddatgelodd yr arolwg Newyddion Datgeliad DBS a gyflawnom yn ddiweddar archwaeth ar gyfer mwy o erthyglau astudiaethau achos – yn arbennig ar gymhwyster.

Yn y rhifyn hwn, mae'n herthygl *'Cymhwyster – fe ddywedoch chi, fe wnaethom ni'* yn cynnwys dwy astudiaeth achos. Gobeithiwn y byddant yn ddefnyddiol i chi a bod hyn y math o erthygl yr hoffech weld mwy ohoni. Os felly, byddant yn dal i ddod gennym.

Erbyn hyn, bydd rhai ohonoch wedi derbyn eich cyflenwad o ffurflenni newydd yr ydym yn eu hanfon allan – ond peidiwch â phoeni os nad ydych. Gall gymryd hyd at 12 wythnos cyn i chi eu derbyn, felly byddwch yn amyneddgar. Mae'n herthygl, *'Ymarfer ailgyflenwi ffurflen newydd ar waith'*, yn rhoi mwy o wybodaeth i chi ar yr ymarfer hwn.

## Ymarfer ailgyflenwi ffurflen newydd ar waith

Mis diwethaf, fe ddywedom wrthych am ein hymarfer ailgyflenwi ffurflenni cais. (*'Ffurflenni newydd ar eu ffordd yn fuan'*, Newyddion Datgeliad y DBS Gorffennaf). Mae hyn oherwydd ar 12 Mawrth 2014, cafodd y ffurflen gais ddatgeliad ei haddasu i adlewyrchu'r newid mewn deddfwriaeth a arweiniodd at hidlo allan hen a mân gollfarnau. Mae Cwestiwn e55 nawr yn gofyn:

*'A oes gennych unrhyw euogfarnau, rhybuddion, ceryddon, rhybuddiadau neu rybuddiadau terfynol na ellid eu heithrio yn unol â chanllaw presennol?'*

Rydym eisoes wedi  dechrau anfon cyflenwad newydd i'r ffurflenni cais allan at bob Corff Cofrestredig, yn seiliedig ar faint o ffurflenni cais papur a gyflwynwyd yn y 12 mis diwethaf. **Mae hyn yn golygu nad oes angen i chi archebu ffurflenni newydd gan ein bod eisoes yn trefnu hyn ar eich cyfer.**

Bydd rhai Cyrff Cofrestredig wedi derbyn eu cyflenwad o ffurflenni newydd – ond peidiwch â phoeni os nad ydych wedi derbyn eich rhai chi eto. Oherwydd y nifer fawr o geisiadau sydd angen eu dosbarthu, gall gymryd hyd at 12 wythnos cyn i chi eu derbyn.

Rydym yn gofyn eich bod yn:

- **dechrau defnyddio'ch ffurflenni newydd cyn gynted ag y byddwch yn eu derbyn, ac yn dinistrio'ch cyflenwad cyfan o'r hen rai.**
- **Defnyddiwch eich cyflenwad cyfredol o ffurflenni cais nes bydd eich ffurflenni newydd yn cyrraedd.**

Os ydych chi eisoes wedi archebu ffurflenni cais gwag ers 12 Mawrth, dechreuwch ddefnyddio'r rhain ar unwaith a dinistrio pob fersiwn hŷn o'r ffurflenni. I gynorthwyo eu hadnabod, mae gan y ffurflen gyfeirnod yn dechrau gydag **F01** yn y gornel dde uchaf.

Sylwer: nid yw ffurflenni cais ffôn (TDAF) – a adnabyddir drwy'r cyfeirnod ffurflen yn dechrau gyda **00** – wedi eu heffeithio a gellir dal i'w defnyddio fel arfer.

## Gwirfoddolwyr: pwy sy'n gymwys?

Wrth ymgeisio am wiriad DBS safonol neu fanwl, mae angen i chi ystyried a yw'r swydd yr ymgeisiwyd amdani yn gymwys. Mae hyn yn wir ar gyfer safleoedd a thâl a gwirfoddol.

Mae ein tîm cydymffurfiad yn gweithio'n agos gyda'n rhwydwaith o Gyrff Cofrestredig ac rydym wedi gweld cynnydd nodedig mewn rhai sefydliadau yn cyflwyno gwiriadau ar gyfer gwirfoddolwyr nad ydynt yn gymwys i gael gwiriad DBS. Mae'r ceisiadau anghymwys hyn wedi cynnwys cynorthwywyr siop, a allai fodloni ein diffiniad o wirfoddolwr, ond nad ydynt mewn sefyllfa i fod yn gymwys am wiriad DBS.

Cyn cyflwyno cais am swydd wirfoddol, dilynwch y camau hyn:

**Cam 1**: Sefydlu a yw'r rôl mae'r ymgeisydd yn ymgeisio amdani yn gymwys ar gyfer gwiriad cofnodion troseddol. Man cychwyn da yw gweld y canllaw cymhwyster wedi ei ddiweddaru.

**Cam 2**: Unwaith byddwch yn fodlon fod y rôl yn gymwys, ystyriwch a yw'n bodloni ein diffiniad o wirfoddolwr. Rydym yn diffinio 'gwirfoddolwr' fel:

'*Rhywun sy'n cymryd rhan mewn gweithgaredd sy'n golygu treulio amser yn ddi-dâl (ac eithrio ar gyfer teithio a mân dreuliau eraill) yn gwneud rhywbeth sydd o fudd i drydydd parti yn hytrach na neu yn ogystal â pherthynas agos*.'

**Cam 3:** Pan fyddwch yn sicr ei fod yn bodloni ein diffiniad, rhowch groes yn y blwch cadarnhau gwirfoddolwr yng Nghwestiwn x68 ar y ffurflen gais.

I fod yn gymwys am wiriad gwirfoddolwr rhad ac am ddim, ni ddylai'r ymgeisydd:

- Fanteisio'n ariannol o'r safle y mae'r cais DBS yn cael ei chyflwyno ar ei chyfer.
- Dderbyn unrhyw daliad (ac eithrio ar gyfer teithio a mân dreuliau eraill a gymeradwyir).
- Fod ar leoliad gwaith.
- Fod mewn swydd hyfforddai neu'n cyflawni cwrs astudio a fydd yn arwain at rôl llawn amser/cymhwyster.
- Fod yn ofalwr maeth â thâl neu'n aelod o gartref gofalwr maeth.

Rydym yn monitro ceisiadau gwirfoddol a byddwn yn gweithredu os credwn fod ceisiadau gwirfoddolwr amhriodol yn cael eu cyflwyno.

Gweler erthygl Hydref 2013 ('*Beth yw gwirfoddolwr?*') am ragor o wybodaeth ac astudiaethau achos defnyddiol.

## Canllaw wedi ei ddiweddaru – cymhwyster a gweithlu

Yn dilyn ein herthygl mis diwethaf ('*Newidiadau i'r Gorchymyn eithriadau ROA 1975*'), ynglŷn â rolau newydd a gynhwyswyd yn y Gorchymyn Deddf Adsefydlu Troseddwyr (ROA) 1974 (Eithriadau) 1975, bydd y canllaw ar ein gwefan ar gymhwyster a gweithlu yn cael ei ddiweddaru o 1 Medi i ddangos y newidiadau perthnasol.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn edrych ar y fersiynau mwyaf diweddar o'r dogfennau hyn wrth lofnodi ceisiadau.

Mae'r safleoedd a dyletswyddau a gynhwysir yn y Gorchymyn Eithriadau ROA yn gymwys am o leiaf tystysgrif DBS lefel safonol. I fod yn gymwys am dystysgrif lefel fanwl, rhaid i'r swydd fod wedi ei chynnwys yng Ngorchymyn Eithriadau'r Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr ac yn rheoliadau Deddf yr Heddlu 1997 (Cofnodion Troseddol).

Gallwch weld yr amrywiol reoliadau Deddf yr Heddlu 1997 (Cofnodion Troseddol) trwy chwilio amdanynt ar legislation.gov.uk.

## Mae'ch barnau yn gwneud gwahaniaeth

Yn ddiweddar fe wahoddom 355 ohonoch i gymryd rhan mewn arolwg ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn; rhoddodd bron i chwarter ohonoch eich barnau. Diolch i chi am hyn.

Roedd yn galonogol i 96% ohonoch ddweud eich bod yn darllen yr holl rifynnau neu bron bob un ac roedd 85% ohonoch yn hapus gydag amlder Newyddion Datgeliad y DBS. Gwyddom fod 83% ohonoch wedi ei rannu gyda chydweithwyr, 46% gyda staff mewn swyddfeydd eraill, 35% ohonoch gyda chleientiaid a 22% ohonoch gydag ymgeiswyr. Mae nifer ohonoch yn ei rannu trwy e-bost, yn ei gyhoeddi ar eich gwefannau ac yn argraffu copïau. Mae hyn yn wych, ac yn rhywbeth y byddem yn ei annog gan ei fod yn helpu addysgu'n cwsmeriaid hefyd.

Mae yna rai meysydd yr hoffech i ni eu gwella neu adeiladu arnynt, ond roedd lefelau boddhad yn galonogol, gydag 87% ohonoch yn fodlon, ac o'r rheiny roedd 27% yn fodlon iawn. Mae Newyddion Datgeliad y DBS yn amlwg yn offeryn defnyddiol i chi – roedd 90% yn cytuno â hyn. Roedd y rhan fwyaf ohonoch hefyd yn cytuno ei fod yn darparu gwybodaeth i gefnogi ein prosesau a gwelliannau. Mae newidiadau a wnaethpwyd i dôn ac iaith mewn ymateb i'ch adborth wedi eu croesawu.

Er bod 82% ohonoch yn hapus gyda lledaeniad newyddion, gofynnwyd i rai ohonoch am fwy o ymgynghoriad a hysbysiad amserol o'r newidiadau; tryloywder o ran cyflawniad gwasanaeth a diweddariadau amserol ynglŷn â'r materion sy'n effeithio ar gyflawniad ein gwasanaeth.  Felly yn rhifyn Gorffennaf, fe ddywedom wrthych ynglŷn â'r cyfnodau o alw uchel yn ein canolfannau alwadau. Mae'n newyddion mwyaf cyfredol ar gael ar ein gwefan a gallwch gofrestru i dderbyn hysbysiadau e-bost. Fe ddywedom wrthych sut i wneud hyn yn rhifyn mis diwethaf ('*Mae mynd ar-lein yn arbed amser i chi: nodyn atgoffa*').

Rydych wedi gofyn am fwy o erthyglau yn seiliedig ar astudiaethau achos ac eisiau i ni gynnwys cymhwyster yn amlach. Yn rhifyn Mehefin, fe gynhwysom astudiaeth achos Gwasanaeth Diweddaru – profiad *Vision For Education* hyd yn hyn. Gobeithiwn bu hyn yn ddefnyddiol i chi ac fe roddodd cipolwg da ar sut mae'ch cyfoedion yn gwneud i'r gwasanaeth weithio iddynt.

Mae'ch ymatebion wedi rhoi cipolwg gwerthfawr i ni ar beth ydych chi eisiau darllen amdano - a sut ydych chi eisiau ei ddarllen. Gyda'ch adborth parhaus, byddwn yn dal i lunio Newyddion Datgeliad y DBS i'r 'cynllun gorau' ar eich cyfer chi.

## **Cymhwyster – fe ddywedoch chi, fe wnaethom ni**

Yn ein harolwg Newyddion Datgeliad DBS diweddar, fe ddywedoch eich bod eisiau gweld mwy ar gymhwyster.

Mae cymhwyster yn seiliedig ar y dyletswyddau a gyflawnir yn rôl pob swydd ac os yw gweithgareddau penodol yn cael eu cyflawni ar gyfer plant/oedolion.

Gwyddom gall achosi dryswch wrth geisio sefydlu a yw deddfwriaeth yn caniatáu cyflwyno cais i ni. Gallwch gysylltu â'n Gwasanaethau Cwsmeriaid (gan nodi eich e-bost fel 'ymholiad cymhwyster') os ydych chi angen unrhyw awgrymiadau ar beth i'w ystyried wrth i chi ystyried hyn.

Awgrymodd rai ohonoch y byddai astudiaethau achos yn eich helpu i gael gwell dealltwriaeth. Gan ddechrau gyda'r rhifyn hwn, byddwn yn cynnwys y rhain ble fo'n bosibl. Mae'r senarios ffugcanlynol yn seiliedig ar swyddi yr ydym yn derbyn ymholiadau amdanynt. Nid ydynt yn holl gynhwysfawr ac fe'i bwriedir fel canllaw i'ch helpu yn unig.

Senario 1 – contractwr arlwyo ar gyfer Ymddiriedolaeth Sylfaenol y GIG

Mae contractwyr ar gyfer y GIG yn cyflawni ystod eang o rolau, felly nid yw pob un ohonynt yn gymwys ar gyfer gwiriad cofnodion troseddol. Dywed Cyflogwyr y GIG fod trefniadau contract yn datgan yn glir a yw pob rôl yn bodloni'r meini prawf cymhwyster deddfwriaethol ac, yn bwysicaf oll, pa lefel o wiriad a ddylid ei gyflawni.

Mae Jamie wedi ei gyflogi, trwy gontractwr allanol, fel cynorthwyydd arlwyo ar gyfer Ymddiriedolaeth Sylfaenol y GIG. Mae ei rôl yn cynnwys gweithio mewn ardaloedd arlwyo penodedig ac ar wardiau mewn ysbytai cyffredinol ble bydd yn cael cyswllt gyda chleifion sy'n blant ac oedolion.

I sefydlu a oes cymhwyster ar gyfer ei rôl, mae angen i'r ymddiriedolaeth ystyried a yw paratoi a darparu bwyd i gleifion ar y ward yn golygu fod Jamie yn ymwneud â darparu gwasanaethau iechyd. Os byddant yn penderfynu bod hyn yn wir, mae rôl Jamie yn gymwys ar gyfer tystysgrif DBS lefel sylfaenol dan gyfeirnod 21 yn ein canllaw cymhwyster wedi ei ddiweddaru. Mae yn y gweithlu plant ac oedolion.

Senario 2 – gweinyddwr mewn Cartref Gofal

Mae Clare yn weinyddwraig mewn cartref gofal i oedolion. Mae ei rhôl yn un ar y safle, ble mae ganddi gyfle i gael cyswllt â phreswylwyr.

I sefydlu ag oes cymhwyster ar gyfer ei rhôl, yna dylai'r cartref gofal ystyried a yw'n gweithio ar y safle yn ddigon aml i gael cyswllt â'r preswylwyr:

- unwaith yr wythnos neu fwy ar sail barhaus, **neu**
- bedair gwaith y mis neu fwy, **neu**
- dros nos rhwng 2am a 6am pan fydd cyfle iddi gael cyswllt wyneb yn wyneb â'r preswylwyr.

Os bydd yr Ymddiriedolaeth yn penderfynu bod hyn yn wir, mae rôl Clare yn gymwys ar gyfer tystysgrif DBS lefel Fanwl dan gyfeirnod 04 yn ein canllaw cymhwyster wedi ei ddiweddaru. Mae yn y gweithlu oedolion.

Rydym yn gweithio ar wneud gwybodaeth am gymhwyster yn fwy clir ar hyn o bryd – felly cadwch lygad allan am rifynnau yn y dyfodol.

## Cyfeirlyfr cyrff cysgodol – gwiriwch eich manylion

Os yw'ch sefydliad yn cynnig gwasanaeth cysgodol bydd angen i chi sicrhau'ch bod yn mewngofnodi i'r cyfeirlyfr cyrff cysgodol i gadw'ch manylion yn gyfredol.

Mae’r cyfeirlyfr yn syml a hawdd a gallwch ei ddefnyddio i rannu’r gwasanaethau a gynigiwch, megis gwasanaeth Cymraeg a cheisiadau Gwasanaeth Diweddaru.

Mae gwybodaeth gyfredol yn eich helpu i ddenu cwsmeriaid, felly mae’n fanteisiol i chi gymryd ychydig funudau i fynd ar-lein a sicrhau bod eich manylion yn gywir.

Mae ein cyfeirlyfr yn helpu sefydliadau llai, eich cleientiaid posibl, i nodi ffynhonnell eich gwybodaeth wrth geisio cael mynediad i’r gwasanaeth DBS gan na allant fodloni’r Amodau Cofrestru i gofrestru eu hunain.

**Cadwch eich manylion cofrestru’n gyfredol**

Os ydych yn gorff cofrestredig, mae angen i chi gadw’ch manylion yn gyfredol. Darllenwch ein canllaw i gyflogwyr i gael gwybod sut i wneud hyn.